# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 9fed o FEHEFIN 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. Eleri Lloyd Burns
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Henry Jones
Cyng. Terry Jones

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Geraint Bebb, Dylan W. Rees, Non Dafydd
**Swyddog Gweinyddol :** L. Powell

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/050** **Ymddiheuriadau :** Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Alwyn Parry, Cyng. John Lee, Cyng. Non W. Parry
**Cyngor Sir** : Cyng. Nicola Roberts
**Cyngor Tref** : Mr. Huw Rhys Parry - Clerc
**Heddlu** : Dim Cynrychiolydd

**25/051** **Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/052** **Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**

1 **PCSO C2593 Alison Williams :** Cadeirydd yn cyfeirio at e-bost 07.06.2025 a dderbyniwyd gan PCSO Williams yn rhoi gwybod o newidiadau o fewn y Tîm, lle bu hi yn mynd yn ôl i'w hardal wreiddiol a ddim yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref fel yn y gorffennol. Bydd y ddwy Swyddog newydd, a fydd yn gweithio yn ardaloedd Llangefni, yn cael gwahoddiad i fynychu'r Cyfarfodydd yn y dyfodol. Dim trafodaeth bellach.

**25/053** **I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 19.05.2025**
Cyng. J. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/054** **I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 19.05.2025 :**

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.
Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw at y canlynol :
**Eitem 25/042.1 : Môn Actif - Prosiect Lon Las :** Pryderon yn ymwneud a thaliadau Gwasanaethau Dwr a Thrydan ar safle'r Pafiliwn a'r dyletswyddau o fewn y Prosiect.
**Eitem 25/042.4 : Camerâu CCTV :** Taliadau annisgwyl yn dilyn tynnu'r Camera dros dro o dalcen siop "Turkish Barber".

**24/055 Cynllunio :**

1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 19.05.2025 :** Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fe rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**24/056 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**

Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Absenoldeb y Clerc :** Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod y Clerc yn absennol o'r Cyfarfod heno oherwydd ei fod yn yr Ysbyty yn disgwyl llawdriniaeth. Cadeirydd yn dymuno'r gorau i'r Clerc am wellhad buan.

2 **Swyddfa :** Yn unol â'r uchod, oherwydd gwyliau blynyddol y Swyddog Gweinyddol (oedd wedi'i drefnu pell amser yn ôl), bydd y Swyddfa ar gau o 11eg hyd at 18fed o Fehefin 2025, heblaw am un awr yn ddyddiol rhwng 12.00o'r gloch a 1.00y.h., pan fydd Aelod o Staff Allanol ar gael yn y Swyddfa. Yn ystod y cyfnod yma, bydd Mr. Arnold Milburn ar gael petai angen unrhyw wybodaeth benodol. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau bydd rhybudd o'r uchod yn ymddangos yn ffenest y Swyddfa, Safle We'r Cyngor Tref a trwy e-bost i'r Aelodau. **Derbyn**

**24/057 Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**

**24/058 Adroddiad y Clerc :**

**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol: Swyddog Gweinyddol yn adrodd yn absenoldeb y Clerc :**

1 **Sedd Wag – Ward Tudur :** Yn y broses o gael ei hysbysebu;

2 **Blodau'r Dref :** Potiau wedi cael ei fandaliaeth dros y penwythnos, planhigion wedi'u dwyn. Adroddwyd y mater i'r Heddlu ac mae Rhif Digwyddiad ar y ffeil.

3 **Pafiliwn, Lon Las :** Symud ymlaen gyda Phrosiect Môn Actif i ddefnyddio'r safle ar gyfer Pickleball a.y.b.

4 **Fynwent, Lon Newydd :** Clerc wedi rhannu cynllun arfaethedig ar gyfer mannau claddu ychwanegol yn ystod y Cyfarfod Llawn 19.05.2025 – Dim diweddariad.

5 **Cynrychiolydd ar Gyrff Allanol :** Cynghorydd Sir yn adrodd ar gynlluniau "Lle Da - Place Making" sydd yn cydweithio gyda Mudiadau i gynnal Prosiectau allweddol i bobl ifanc .
**Ysgol Corn Hir :** Enwebu Cynrychiolydd o'r Cyngor Tref yn y Cyfarfod Llawn nesaf;
**Grŵp Adfywio Llangefni :** Cyng. Eleri Ll. Burns wedi'i enwebu fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref.

**25/059 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :**

1 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned Ynys Môn 19.05.2025 :** Cofnodion Cyfarfod 04.02.2025 wedi'i atodi, er gwybodaeth.

2 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 03.06.2025 :** Cofnodion Cyfarfod 03.12.2024 wedi'i atodi, er gwybodaeth. Crynodebau o'r Cyfarfod gan Cyng. Dylan Rees a phwysleisiodd y pwysigrwydd o fynychu'r cyfarfodydd yn gyson i gadw'r perthynas gyda'r Grŵp.

**25/060 Cyllid :**

**I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mai 2025 :**

**Sylwadau'r Aelodau, fel a ganlyn :**

1 **Cyng. J. Egryn Lewis :** Awgrymu derbyn adroddiad pellach ar rai o'r Eitemau - dim trafodaeth bellach;

***PARHAD 25/060***

2 **Cyng. Margaret Thomas :** Cyng. Thomas wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i archwilio'r Fantolen. Cyng. Thomas yn dwyn sylw dylid edrych yn ddyfnach ar y Fantolen. Dim trafodaeth bellach.
*Nodwyd : Ni chynigiwyd nac eiliwyd y Fantolen.*

**25/061 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
**Cynghorydd Sir yn datgan nad oedd llawer i adrodd yn ôl arno yn ystod y mis diwethaf :**

- Cynllun Môn Actif "Swim Safe" : Gwersi sut i nofio yn ddiogel yn y môr;
- Prosiect Lightsource bp Maenhir : Cyngor Sir yn gweithio i leihau maint y cynllun ac wedi anfon llythyr at Wleidydd yn datgan pryder trigolion Ynys Môn a dylid ystyried o ddifyr cyn caniatâd;
- Cyng. J. Egryn Lewis yn holi beth oedd penderfyniad y Cyngor Tref ar yr uchod ac i edrych i mewn i hyn.

*Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorydd Sir am eu mewnbwn.*

**25/062 Gohebiaeth a Materion Newydd : Dim**

**25/063 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Mai 2025 :**

**1 Un Llais Cymru : Derbyn**
**2 Materion Eraill : Derbyn**

**25/064 I Ystyried Unrhyw Fater brys gan y Cadeirydd :**
Cadeirydd yn datgan nad oes unrhyw beth i'w adrodd arno heno.

**25/065 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :**

**1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 14.07.2025**
**2 Cyfarfod Arbennig Nos Lun 23.06.2025 : Adroddiad Archwilydd Mewnol :** Cyng. Margaret Thomas yn datgan fod yr Adroddiad yn hwyr a dylid fod wedi'i pharatoi yn gynt na hyn. Cadeirydd yn datgan cytunwyd i benodi'r un Archwilydd Mewnol ag yn y blynyddol blaenorol a ni ystyried unrhyw un arall yn y cyfnod yma. Dim trafodaeth bellach.

***CYNG. J. EGRYN LEWIS***
***CADEIRYDD***